Cwestiynau Kate

Pam fod cynffon wiwer yn y gors?
Be' di'r dalennau papur ar y to?
Pwy roes y draenog yn yr eirin Mair?
Pam fod corn y trên yn dal y giât?
- Lle gest ti'r lluniau? Callia, Kate…
- Ond Mam, mae lliwio geiriau yn grêt.

Pwy sy'n clywed anadl yn y simnai?
A'r ieir yn mwydro yn y daflod?
Y glaw to sinc yn y piser godro?
A'r coconyts yn disgyn ar y llwybr troed?
- Be' sy'n bod ar dy glyw? Clustfeinia, Kate…
- Ond Mam, mae clywed lluniau'n grêt.

Be' di'r gwddw jiráff sy'n tyfu drwy'r pridd?
A'r haul aur Mehefin ar ei ben?
Pwy sy'n gwisgo het pot inc ar Ŵyl Ddewi?
A chicio melon dŵr yn y Stadiwm?
- Paid â malu. Dos i dy wely, Kate.
- Iawn Mam, achos mae breuddwydio'n grêt.

Ysgol Gynradd Carmel gyda chymorth Myrddin ap Dafydd
Cae'r Gors: Canolfan Dreftadaeth Kate Roberts, 27/02/08